cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales
EICH TAITH CYLLID MYFYRWYR

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYN PRIFYSGOL

Rydych chi'n penderfynu mynd i'r brifysgol neu'r coleg.

Cewch **wybod pa gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael** gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.
Ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Ymgeisiwch am gyllid myfyrwyr ar-lein ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.
Sicrhewch fod gennych eich pasbort, manylion banc a rhif Yswiriant Gwladol wrth law.

Darparwch dystiolaeth.
Gwnewch yn sir eich bod yn rhoi unrhyw dystiolaeth y gofynnwn amdani cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi wrth brosesu eich cais.

Mae eich rhiant neu bartner yn darparu manylion incwm. Mae'n bwysig iawn eu bod yn anfon y rhain atom cyn gynted â phosibl er mwyn i chi gael cymaint o arian ag y mae gennych hawl iddo.

Rydym yn asesu eich cais.
Byddwn yn anfon llythyr atoch yn cadarnhau faint y byddwch yn ei gael.

YN Y BRIFYSGOL

Dechrau prifysgol.
Mae angen i chi gofrestru yn y brifysgol cyn y gallwn wneud eich taliad cyntaf.

Codir llog o'r diwrnod y byddwn yn gwneud eich taliad cyntaf.

Ailymgeisio am gyllid myfyrwyr bob blwyddyn.

Rydych chi'n graddio.

AR ÔL Y BRIFYSGOL

Rydych chi'n dechrau ad-dalu'r mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, ond dim ond pan fyddwch chi'n ennill dros £27,295 y flwyddyn. Pan fyddwch yn dechrau ad-dalu, byddwch yn gwneud ad-daliadau i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Mae symiau llog yn amrywio. Bydd faint o log a godir arnoch yn dibynnu ar eich incwm.

Os bydd eich incwm yn gostwng o dan £27,295 bydd eich ad-daliadau yn dod i ben. Gwiriwch delerau ad-dalu eleni yn **https://www.gov.uk/repaying-your-student-loan**

Bydd eich benthyciad yn cael ei ganslo 30 mlynedd ar ôl i chi ddod yn ddyledus i ddechrau ad-dalu.